tgp CYMRU

PLANT A THEULUOEDD
CHILDREN AND FAMILIES





# GWASANAETH EIRIOLAETH TGP CYMRU


## Canllaw Gwasanaeth Hawdd ei Ddeall

tgpcymru.org.uk

Canllaw Gwasanaeth Hawdd ei Ddeal TGP Cymru, F4, Medi 2024

# Croeso i Wasanaeth Eiriolaeth TGP Cymru


## Pwy ydym ni?




Elusen Hawliau Plant yng Nghymru yw TGP Cymru. Rydym ni'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc a allai fod eisiau cymorth a chefnogaeth ychwanegol drwy eiriolaeth.

## Yr hyn yr ydym ni'n ei wneud

Mae Gwasanaeth Eiriolaeth TGP Cymru yn wasanaeth rhad ac am ddim i blant a phobl ifanc sydd rhwng 0 - 25 mlwydd oed. Mae ar gael i blant a phobl ifanc â chanddynt weithiwr cymdeithasol. Mae hefyd ar gael i rai plant a phobl ifanc yr oedd ganddynt weithiwr cymdeithasol pan oedden nhw yn ifancach.







# Beth yw eiriolaeth?


## Eiriolaeth yw




- Gwrando arnoch




- Siarad â chi am Hawliau Plant
- Eich helpu i siarad gyda'r oedolion yn eich bywyd
- Eich helpu i drefnu pethau gyda'r bobl sy'n gofalu amdanoch chi
- Eich helpu mewn cyfarfodydd




# Sut y gallwn ni helpu?

## Gallwn ni




- Eich helpu chi i ddweud os ydych chi'n anhapus ynglŷn â rhywbeth
- Eich helpu chi i rannu eich dymuniadau a'ch teimladau
- Eich helpu chi i ddweud wrth bobl eraill sut yr ydych chi'n teimlo am eich bywyd.

# Gwybodaeth bwysig

Mae gwasanaeth eiriolaeth TGP Cymru yn annibynnol ac yn gyfrinachol.

Mae hynny'n golygu nad ydym ni'n gweithio ar ran unrhyw un heblaw amdanoch chi ac ni fyddwn yn rhannu unrhyw beth a ddywedwch chi wrthym ni gydag eraill, oni bai ein bod ni'n teimlo bod yr hyn yr ydych chi'n ei ddweud wrthym yn achosi perygl i chi neu i rywun arall.

**PREIFAT**

Gallwch ddarganfod pa mor dda yr ydym yn darparu ein gwasanaeth trwy ddarllen ein hadroddiad arolygu. Fe welwch hwn ar ein gwefan, **www.tgpcymru.org.uk**

## Mae TGP Cymru yn darparu dau fath o wasanaeth eiriolaeth:

# Y Cynnig Gweithredol


Os nad ydych chi wedi cwrdd ag eiriolwr o'r blaen, dyma pryd y bydd eiriolwr yn cyfarfod â chi ac yn dweud popeth am eiriolaeth wrthych chi a sut y gall ef fod o gymorth i chi. Eich dewis chi wedyn yw pa un a ydych chi eisiau i'r eiriolwr eich helpu chi. Byddwch yn cael gwybodaeth am eiriolaeth mewn pecyn i'w gadw hefyd.



# Eiriolaeth sy’n seiliedig ar Fater Penodol

Os oes gennych chi fater yr hoffech chi i eiriolwr eich helpu gydag ef, rydym ni’n galw hynny yn eiriolaeth sy’n seiliedig ar fater penodol. Fe wnaiff eich eiriolwr eich helpu i ddatrys y mater a phan fydd hyn wedi ei gyflawni, byddwn yn rhoi’r gorau i weithio gyda chi. Ond cewch gysylltu â ni eto unrhyw bryd yn y dyfodol.

Beth am wylio ein fideo ar ein gwefan i ddarganfod mwy am eiriolaeth?



**https://www.tgpcymru.org.uk/**

# Newydd i TGP Cymru?


Os ydych chi eisiau defnyddio gwasanaeth eiriolaeth TGP Cymru, cewch chi gysylltu â ni. Weithiau bydd pobl eraill, fel eich gweithiwr cymdeithasol neu athro yn cysylltu â ni ar eich rhan, ond mae'n rhaid iddyn nhw ofyn i chi os yw hynny'n iawn yn gyntaf.



Mae eiriolaeth yn canolbwyntio arnoch chi; byddwn yn eich trin â pharch bob amser ac ni fyddwn byth yn eich barnu.


# Pwy yw fy eiriolwr?

Pan eich bod yn dechrau gweithio gyda ni, byddwn ni'n dweud wrthych chi pwy yw eich eiriolwr. Pan fyddwch yn cwrdd â'ch eiriolwr am y tro cyntaf, bydd yn dweud wrthych chi sut i gadw mewn cysylltiad ag ef.




Cewch ddweud wrthym os hoffech chi gael eiriolwr gwahanol i'r un yr ydym ni'n ei roi i chi. Cewch ddweud wrthym os byddai'n well gennych chi i'ch eiriolwr fod yn ddyn neu'n fenyw. Os hoffech chi siarad â'ch eiriolwr mewn iaith heblaw am Saesneg, cewch ddweud hynny wrthym ni hefyd.


# Eich cofnodion



Pan fo gennych eiriolwr, efallai y bydd angen gwneud rhai nodiadau amdanoch chi ac efallai y gofynnir i chi ysgrifennu eich enw ar ffurflen, y bydd yr eiriolwr yn ei hesbonio i chi. Eich ffeil yw'r enw a roddwn i'r nodiadau a'r ffurflenni hyn ac rydym ni'n ei chadw yn ddiogel iawn. Cewch ofyn am gael gweld eich ffeil ar unrhyw bryd drwy ofyn i'ch eiriolwr neu drwy gysylltu â ni.

# Cymryd rhan





Os hoffech chi ddweud wrthym ni am yr hyn yr ydych chi'n ei gredu ein bod ni'n ei wneud yn dda neu'r hyn y mae angen i ni ei newid yn yr hyn a wnawn, byddem wrth ein boddau yn clywed oddi wrthych. Cofiwch gysylltu â ni oherwydd fe all eich barn a'ch syniadau chi fod o wir gymorth i ni allu helpu plant a phobl ifanc eraill.

# Canmoliaeth a chwynion:




Mae adborth yn debyg i pan fo eich athrawon yn marcio eich gwaith yn yr ysgol. Maen nhw'n dweud wrthych chi beth sy'n dda a beth allai fod angen ei newid. Rydym ni'n hoffi clywed adborth am ein gwasanaeth eiriolaeth ac mae'n ein helpu ni i wella'r hyn yr ydym ni'n ei wneud. Cysylltwch â ni os oes gennych chi unrhyw adborth i ni, da neu wael.

# Cysylltwch â ni:

**Sbarc, Heol Maindy, Cardiff CF24 4HQ**

**Ffôn: 02920 396974 • E-bost: admin@tgpcymru.org.uk**

**Unigolyn Cyfrifol: Rhiannon Beaumont-Walker**
**Rheolwr Cofrestredig: Sarah Durrant**

TGP Cymru yw enw gweithredol Tros Gynnal Plant, Rhif Elusen Gofrestredig 1099878.

Ar gais, bydd yr wybodaeth hon ar gael mewn ieithoedd a fformatau eraill.

Gall TGP Cymru hefyd esbonio'r canllawiau hyn wrthych chi yn bersonol. Cysylltwch â communications@tgpcymru.org.uk